



Gofal o dan yr Enfys

Cyngor er mwyn creu cartrefi gofal cynhwysol i breswylwyr hŷn LHDT+



Dylech...

- Deall a gwerthfawrogi y byddwch yn gweithio gyda phreswylwyr â hunaniaethau rhyw, hunaniaethau rhywedd a hanesion gwahanol.
- Ystyried ei bod yn bosib bod rhai o'ch preswylwyr yn arddel hunaniaeth LHDT+, yn cael rhyw ac wedi profi perthnasau un rhyw, yn amrywiol o ran rhywedd neu wedi ailbennu rhywedd rywbyrd yn eu bywydau.
- Cydnabod a chefnogi amrywiaeth ymhlith rhanddeiliaid sy'n arddel hunaniaeth LHDT+ ac ymhlith y preswylwyr sy'n byw yn eich cartref.
- Codi ymwybyddiaeth ymhlith eich timau o enghreifftiau hanesyddol a phresennol o wahaniaethu, ymyleiddio ac eithrio y mae pobl LHDT+ wedi'u profi.
- Sicrhau bod gan yr HOLL staff sgiliau rhyngpersonol a'r ddealltwriaeth i gyfathrebu gyda'r preswylwyr yn hyderus am bynciau sensitif a dechrau sgysiau



Ni ddylech...

- Defnyddio iaith ragfarnllyd na diystyru anghenion a hawliau preswylwyr LHDT+.
- Bod â barnau ystrydebol am bobl hŷn, rhywedd a rhywioldeb. Er enghraifft, cymryd yn ganiataol fod pob person hŷn yn anrhywiol neu heb ddiddordeb mewn rhyw fel pobl hŷn.
- Cymryd yn ganiataol fod pobl hŷn LHDT+ yn un grŵp, gyda'r un anghenion gofal a chymorth a diddordebau.
- Diystyru'r angen i drafod beth mae cynnwys pobl LHDT+ yn ei olygu yn y cartref gofal preswyl.
- Cymryd yn ganiataol nad yw staff angen hyfforddiant amrywiaeth a chynhwysiant, er enghraifft glanhawyr, staff cegin, porthorion ac ati.
- Cadw'n dawel os byddwch yn gweld staff, preswylwyr neu ymwelwyr yn ymddwyn mewn ffordd wahaniaethol, rhagfarnllyd neu sarhaus tuag at

am gynnwys a chydabod pobl LHDT+.

- Herio ymddygiadau gwahaniaethol a sylwadau homoffobaidd, trawsffobaidd a deuffobaidd mewn cartrefi gofal gan breswylwyr, staff ac ymwelwyr.
- Creu amgylchedd diogel i breswylwyr allu 'dod allan' fel pobl LHDT+ os ydynt yn dymuno gwneud hynny, a chefnogi eu dewisiadau.
- Parchu a chefnogi perthnasau agos a rhwydweithiau cymdeithasol preswylwyr LHDT+.
- Cynnwys a siarad gyda phreswylwyr LHDT+ ynghylch pwy y dylid eu cynnwys mewn penderfyniadau am eu trefniadau gofal a'u bywydau dydd i ddydd - mae'n bosib nad aelodau teulu biolegol fydd y rhain.
- Bod yn ymwybodol o anghenion sy'n rhyngblethu pobl sydd â sawl hunaniaeth gymdeithasol (e.e. pobl hŷn LHDT+ sy'n ddu, Asiaidd neu o leiafrif ethnig a phobl LHDT+ sy'n anabl).

eraill oherwydd hunaniaeth rhyw neu hunaniaeth rhywedd.

- Cymryd yn ganiataol bod pob preswilydd LHDT+ eisiau dod allan wrth eraill, neu rannu agweddau ar eu bywydau personol gydag aelodau eraill o staff a phreswylwyr.
- Neidio i ragdybiaethau am hunaniaeth rhywedd neu hunaniaeth rhyw y rhai sy'n ymweld â phreswylwyr hŷn a beth yw'r berthynas rhyngddynt.
- Dim ond cynnwys teulu biolegol pobl hŷn, heb ystyried eu hanwyliaid.
- Gwahaniaethu yn erbyn grwpiau lleiafrifol neu anwybyddu eu hiechyd meddwl a'u llesiant a'u hanghenion sy'n rhyngblethu yn seiliedig ar agweddau o'u hunaniaeth sy'n rhyngblethu (e.e. hil, rhywedd, anabledd, ailbennu rhywedd, cyfeiriadedd rhywiol ac oedran).

Cynhyrchwyd yr adnodd hwn ar y cyd rhwng Ysgol Astudiaethau Polisi Prifysgol Bryste a'r Ymddiriedolaeth Amrywiaeth, mis Mawrth 2019.

I gael rhagor o wybodaeth ac adnoddau, ewch i www.diversitytrust.org.uk/